

PAPUR FSAW 19/01/03
I'w drafod

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig yn cyfeirio at faterion a nodwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018. Mae cofnodion llawn cyfarfod y Bwrdd ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) drwy <http://www.food.gov.uk/> (Saesneg yn unig). Mae'r papur hefyd yn rhoi diweddariad ar faterion sy'n berthnasol i Gymru ac mae'n sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.
2. Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro ASB Cymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau i:
 - **nodi** i'r diweddariad
 - **gwahodd** y Cyfarwyddwr Dros Dro i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

Swyddog Cyswilt yn ASB Cymru: Elora Elphick
elora.elphick@food.gov.uk

Papur FSA 19/01/03
I'w drafod
Diweddariad gan y Cyfarwyddwr

1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 12 Rhagfyr 2018

1.1 Cafodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 18/12/04) sydd ar gael drwy'r ddolen hon (Saesneg yn unig):

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-18-12-04-chief-executives-report.pdf>

2. Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rydw i wedi bod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gwrdd ddiwethaf mewn sesiwn agored ym mis Tachwedd 2018:

- 3 Rhagfyr – Gyfarfod â Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.2 Rwyf wedi trefnu cyfres o ymweliadau ymgysylltu gydag ystod o randdeiliaid allweddol yng Nghymru ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd. Bydd fy ymweliad cyntaf â Chynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro ar 14 Ionawr. Rwy'n bwriadu cwrdd â phob awdurdod lleol yng Nghymru yn unigol erbyn diwedd Mehefin 2019. Byddaf hefyd yn cwrdd â nifer o randdeiliaid allweddol eraill yng Nghymru. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod sut y gallwn ni barhau i gydweithio i ddiogelu'r cyhoedd, gan sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

2.3 Rwyf wedi ysgrifennu at ystod eang o gynrychiolwyr y diwydiant i'w gwahodd i gyfarfod bord gron yng Nghaerdydd ar 17 Ionawr. Mae'r digwyddiad hwn yn ddilyniant i'r cyfarfodydd bord gron a gynhaliwyd gyda'r diwydiant yn 2017. Bydd y trafodaethau ym mis Ionawr yn gyfle i ddiweddarau cynrychiolwyr y diwydiant ar sut mae ein paratodau ar gyfer ymadael â'r UE yn mynd rhagddynt ac i glywed eu safbwyntiau a'u hadborth ar y gwaith hwn. Byddwn yn rhoi diweddariad ar nifer o ffrydiau gwaith allweddol, fel diwygio deddfwriaeth, bwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir, asesu risg a rheoli risg, a newidiadau i farciau iechyd. Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle i roi diweddariad ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yr ASB, sy'n anelu at foderneiddio'r ffordd y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio.

Ymadael â'r UE

2.4 Bydd gan yr ASB yng Nghymru £100,000 yn ychwanegol ar gael i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u paratodau ar gyfer ymadael â'r UE o ran darparu gwasanaethau cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Rydw i wedi ysgrifennu at

Benaethiaid Gwasanaeth pob awdurdod lleol ledled Cymru yn eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau yn erbyn yr adnodd ychwanegol sydd ar gael. Rydw i nawr yn adolygu'r cynigion a ddaeth i law.

Samplu Awdurdodau Lleol

2.5 Rydw i hefyd wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi gwybod y byddaf yn cynnig cyllid ychwanegol pellach o £20,000 i gefnogi prosiectau samplu safonau bwyd pellach a dargedir at faterion rhanbarthol. Dylid canolbwyntio gweithgareddau ar feysydd lle mae problemau cydymffurfio yn bodoli, neu lle amheuir bod problemau o'r fath. Rhaid cwblhau'r holl waith a ariennir ac anfonebu ar ei gyfer erbyn 31 Mawrth 2019.

3 Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar 11 Ebrill 2019, rydw i wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 14 Ionawr – Cyfarfod â Chyngor Sir Caerfyrddin
- 14 Ionawr – Cyfarfod â Chyngor Sir Penfro
- 17 Ionawr – Cyfarfod bord gron â'r diwydiant
- 22 Ionawr – Grŵp Cyngori ar Ddiogelu Iechyd
- 29 Ionawr – Cyfarfod â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 5 Chwefror – Cyfarfod gyda Chyngor Sir Ynys Môn
- 5 Chwefror – cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd
- 5 Chwefror – Cyfarfod â Dinas Conwy
- 7 Chwefror – Cyfarfod cyswllt â Llywodraeth Cymru
- 11 Chwefror – Cyfarfod Bwrdd Bwyd a Diwydiant
- 26 Chwefror – Bwrdd Ymateb a Gwydnwch Paratoi ar gyfer Argyfwng
- 20-21 Mawrth – Digwyddiad Blas Cymru

Richard Bowen

Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB Cymru
Ionawr 2019